# Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015

**2015 dccc 6**

*Darpariaethau eraill sy'n ymwneud â Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol*

### [F1]39 Ymestyn dros dro swyddogaethau Panel sy'n ymwneud â phenaethiaid gwasanaethau cyflogedig i brif swyddogion

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Aau. 2-39 wedi eu hepgor (21.1.2021) yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (asc 1), **aau. 150(3)(b)**, 175(1)(f)(2)

### 40 Newidiadau i'r ddyletswydd i roi sylw i argymhellion y Panel ynghylch cyflogau

(1) Mae adran 143A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (swyddogaethau'r Panel mewn perthynas â chyflogau penaethiaid gwasanaethau cyflogedig) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl is-adran (3) mewnosoder—

"(3A) Ond caiff awdurdod perthnasol cymwys sydd wedi ymgynghori â'r Panel ynghylch gostyngiad arfaethedig mewn cyflog wneud y gostyngiad cyn derbyn argymhelliad gan y Panel os nad yw'r contract y mae'r cyflog yn daladwy oddi tano yn atal yr awdurdod rhag newid y cyflog ar ôl derbyn argymhelliad.

(3B) Pan fo awdurdod perthnasol cymwys yn newid cyflog ei bennaeth gwasanaeth cyflogedig yn unol ag is-adran (3A) ac yn derbyn argymhelliad gan y Panel ynghylch y newid wedi hynny—

(a) rhaid iddo ailystyried y cyflog, a

(b) wrth wneud hynny, rhaid iddo roi sylw i'r argymhelliad."

(3) Ar ôl is-adran (4) mewnosoder—

"(4A) Rhaid i'r Panel hysbysu Gweinidogion Cymru am bob argymhelliad y mae'n ei wneud o dan yr adran hon."

(4) Ar ôl is-adran (5) mewnosoder—

"(5A) Rhaid i awdurdod perthnasol cymwys—

(a) hysbysu'r Panel a Gweinidogion Cymru am ei ymateb i argymhelliad a wnaed gan y Panel ynghylch newid i gyflog ei bennaeth gwasanaeth cyflogedig cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r awdurdod yn penderfynu ar yr ymateb, a

(b) peidio â newid y cyflog cyn—

(i) diwedd y cyfnod o wyth wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r awdurdod yn hysbysu Gweinidogion Cymru o dan baragraff (a), neu

(ii) os yw Gweinidogion Cymru, cyn diwedd y cyfnod hwnnw, yn hysbysu'r awdurdod na fyddant yn rhoi cyfarwyddyd i'r awdurdod o dan is-adran (5B), y diwrnod y derbynnir yr hysbysiad hwnnw.

(5B) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod ymateb awdurdod perthnasol cymwys i argymhelliad a wnaed gan y Panel ynghylch newid i gyflog yn golygu y bydd yr awdurdod yn talu (neu, o dan is-adran (3A), ei fod yn talu) cyflog sy'n anghyson â'r argymhelliad, caiff Gweinidogion Cymru—

(a) cyfarwyddo'r awdurdod i ailystyried y cyflog, a

(b) pennu yn y cyfarwyddyd erbyn pryd y mae'n rhaid i'r awdurdod wneud hynny."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 40 mewn grym ar 25.1.2016, gweler **a. 46(1)**

## 41 Aelodaeth y Panel

(1) Mae paragraff 1 o Atodlen 2 i Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (aelodaeth y Panel) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraff (1), yn lle "Pum" rhodder "Dim llai na 3, a dim mwy na 7,".

(3) Hepgorer is-baragraff (5) (cyflogeion awdurdodau lleol etc. heb eu hanghymhwyso rhag bod yn aelodau).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 41 mewn grym ar 25.1.2016, gweler **a. 46(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015, Croes Bennawd: Darpariaethau eraill sy'n ymwneud â Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.